

No.

## PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley (Is-Gadeirydd); P. Hallett a G. Watkins (Aelodau Annibynnol); Cynghorydd P. Summers (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned); Cynghorwyr R.M. Birch, J.E. Charles a C.P. Franks.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Grŵp Llafur), G.D.D. Carroll (Arweinydd Grŵp Ceidwadol), M.J. Hooper, G. John (Arweinydd Grŵp Annibynnol Llanilltud Fawr) a Dr. I.J. Johnson (Arweinydd Grŵp Plaid Cymru).

### 396 CYHOEDDIAD -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol. "

### 397 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y R. Alexander (Aelod Annibynnol).

### 398 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2023 fel cofnod cywir, yn amodol ar nodi bod paragraff olaf ond un Cofnod Rhif 198 yn cael ei ddiwygio i ddarllen "..... wedi'i gytuno gan y Pwyllgor Safonau ar 8 Mehefin 2023, **a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 22 Mehefin 2023** gyda .....

### 399 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

400 CYFARFOD PWYLLGOR SAFONAU AG ARWEINWYR GRWPIAU SY'N CYDYMFFURFIO Â'R CANLLAWIAU STATUDOL AC ANSTATUDOL AR GYFER PRIF GYNGHORAU YNG NGHYMURU - DARPARIAETHAU ATEGOL O FEWN DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000, MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 A DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 CYHOEDDWDYD MEHEFIN 2023 (SM/PGCD) –

Derbyniwyd o Ganllawiau Interim gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2022 o ran darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Llywodraeth Cymru. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Statudol ac Anstatudol wedi'u diweddarau ar gyfer Prif Gyngorau yng Nghymru. Roedd y rhain yn ategu darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd y canllawiau hyn yn trafod nifer o agweddau, ac roedd y materion a oedd yn ymwneud yn benodol â chylch gwaith y Pwyllgor Safonau wedi'u hamlygu yn yr adroddiad, sef adrannau 4.0, 5.0, 6.0 a 7.0 o Ran 2 y Canllawiau. Roedd y rhain hefyd wedi cael eu hatgynhyrchu yn Atodiad A yr adroddiad.

Wrth gyflwyno'r adroddiad dywedodd y Swyddog Monitro fod yr adroddiad hwn yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod diwethaf ym mis Gorffennaf 2023. Roedd profforma'r Arweinydd Grŵp hefyd wedi cael ei diwygio yng ngoleuni'r Canllawiau Statudol, ac roedd copi o'r ffurflen ddiwygiedig ynghlwm fel Atodiad i'r adroddiad. Argymhellodd y Swyddog Monitro y dylid parhau â'r cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Arweinwyr y Grwpiau, y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro, gan eu bod wedi gweithio'n dda yn y flwyddyn gynt, ac y dylid cynnal y cyfarfod ag Arweinwyr Grŵp a'r Pwyllgor Safonau yn ôl yr angen ar sail flynyddol yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd Arweinydd y Cyngor, o'i safbwynt hi ac o ystyried y ffaith bod dros hanner yr Aelodau wedi'u hethol o'r newydd yn 2022, ei bod o'r farn fod y broses a gynhaliwyd wedi gweithio'n dda, a'i bod wedi gallu tynnu sylw'r Swyddog Monitro at faterion y gallai Aelodau Etholedig fod angen treulio amser yn myfyrio arnynt ers cael eu hethol. Wrth gyfeirio at y ddogfen Civility in Public Life, dywedodd fod agweddau o fewn y Cyfansoddiad y gellid eu cryfhau ac ystyried y gwaith hwnnw.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll, o ran y broses a gynhaliwyd yn 2022, ei fod yn fodlon â'r broses honno, a phe bai angen unrhyw ymgysylltu pellach, y gellid edrych eto ar hynny.

Dywedodd y Cynghorydd John fod ganddo Gynghorwyr profiadol iawn fel Aelodau o'i Grŵp, a dywedodd eu bod yn gwybod sut i ymddwyn a'u bod yn parchu'r naill a'r llall.

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson hefyd na chafwyd unrhyw broblemau neilltuol y bu'n rhaid iddo ymdrin â nhw, ac nad oedd ganddo ef ychwaith unrhyw broblem gyda'r broses gyfredol.

No.

Ac ystyried y sylwadau yn y cyfarfod, awgrymodd y Swyddog Monitro y dylid cadw at y trefniadau cyfredol a threfnu cyfarfod ag Arweinwyr Grwpiau, y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro cyn 31 Mawrth 2024. Fodd bynnag, dywedodd hefyd, pe bai Arweinydd Grŵp yn teimlo bod angen galw cyfarfod cynharach, y byddai hynny hefyd yn briodol. Ac ystyried mynychder cyfarfodydd o'r fath, awgrymwyd y dylid eu cynnal bob chwe mis, a chynnal cyfarfod blynyddol a oedd yn cynnwys y Pwyllgor Safonau.

Mewn perthynas â'r ddyletswydd ynghylch "y trothwy a ddefnyddir gan y Pwyllgor Safonau i sefydlu a yw'n fodlon bod arweinwyr grŵp gwleidyddol wedi cydymffurfio â dyletswyddau Deddf 2021", cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y ffaith na fyddai'r trothwy'n rhoi sylw i faterion o'r gorffennol a oedd yn codi cyn sefydlu'r ddyletswydd. Byddai'r modd yr oedd Arweinwyr y Grwpiau yn rhyngweithio â'r Cadeirydd a'r Swyddog Monitro yn rhan o'r trothwy, a dywedodd na fu unrhyw broblemau hyd yma, ond mynegodd pa mor bwysig oedd hi i Arweinwyr Grwpiau sicrhau eu bod ar gael os oedd angen. Awgrymodd y Swyddog Monitro hefyd y dylai Arweinwyr y Grwpiau eu hunain gofnodi unrhyw bryderon yn eu Grwpiau y gallent wedyn eu codi'n brydlon gyda'r Swyddog Monitro. Byddai presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi gorfodol, a chadw at unrhyw benderfyniad ynghylch polisi gan y Cyngor neu'r Cabinet, hefyd yn cael eu hasesu yn rhan o'r trothwy, gyda'r Swyddog Monitro yn cyfeirio at y broses ar gyfer gwiriadau DBS er enghraifft, a'r angen i Aelodau ymgysylltu â swyddogion yn brydlon. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro hefyd at rai digwyddiadau diweddar lle'r oedd rhai Aelodau wedi gwneud datganiadau anghywir yn y cyfryngau cymdeithasol ac mewn cyfarfodydd Pwyllgor, gan ddweud ei bod hi'n bwysig bod gwybodaeth ffeithiol yn cael ei chyfleu er mwyn sicrhau enw da'r Cyngor.

Wrth gyfeirio at y cyfeiriad at Civility in Public Life, dywedodd y Swyddog Monitro mai ei bwriad oedd adolygu'r safonau mewn bywyd cyhoeddus, a chyflwyno adroddiad gerbron y Pwyllgor cyn hir.

Ar ôl hynny.

PENDERFYNWYD –

- (1) NODI'r darpariaethau a nodir ym mharagraffau 2.6 i 2.10 o'r adroddiad.
- (2) CYTUNO ar y profforma diwygiedig sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad gan yr Arweinydd Grŵp.
- (3) DIRPRWYO awdurdod i'r Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau i baratoi dogfen, i'w rhannu gydag Aelodau'r Pwyllgor Safonau ac Arweinwyr Grwpiau, gan ystyried paragraff 2.6 o'r adroddiad, trafodaethau yn y cyfarfod. a'r trothwy y byddai'r Pwyllgor Safonau yn ei ddefnyddio i sefydlu a oedd yn fodlon bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â dyletswyddau Deddf 2021.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2&3) Gan ystyried y diwygiadau a adlewyrchwyd yng Nghanllawiau Statudol ac Anstatudol LIC a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 401 CEISIADAU AM GANIATÂD (SM/PGCD) –

Roedd Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) yn caniatáu i Aelodau wneud cais i'r Pwyllgor Safonau i siarad, ac os oedd hi'n briodol, i bleidleisio ar faterion na fyddent o bosib, oherwydd buddiant sy'n rhagfarnu, yn gallu siarad na phleidleisio yn eu cylch, nac aros yn yr ystafell ar eu cyfer.

Yn ystod y drafodaeth, rhoddodd y Swyddog Monitro gyngor i'r Pwyllgor ynghylch y ceisiadau a gyflwynwyd a'r paragraffau perthnasol lle caiff Pwyllgor Safonau ganiatáu goddefeb.

Mewn perthynas â chais y Cyngorydd Breen, dywedodd y Swyddog Monitro, pe bai'r Aelodau o blaid caniatáu'r cais, y byddai'r Cyngorydd Breen yn cael ei atgoffa i werthfawrogi'r capasiti yr oedd yn gweithredu ynddo wrth drafod materion.

Mewn perthynas â chais y Cyngorydd Morris, nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau pellach wedi dod i law oddi wrth Gyngorwyr eraill o fewn yr un Cyngor Cymuned.

Mewn perthynas â chais y Cyngorydd Hooper, dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cyngorydd Hooper wedi cyflwyno cais manwl. Roedd hefyd wedi ymgynghori â hi ac wedi rhoi mwy o wybodaeth iddi ynghylch y swydd y cafodd ei benodi iddi yn Llywodraeth Cymru, ac roedd hi'n fodlon â'r wybodaeth a ddarparwyd.

PENDERFYNWYD – CANIATÂU'r gollyngiadau fel y nodir yn y rhestr isod yn hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf, neu'r dyddiad a nodir isod:

<b>Aelod sy'n Gofyn am Ollyngiad</b>	<b>Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 - y Caniateir Gollyngiadau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt oddi tanynt</b>	<b>Penderfyniad</b>
Cyngorydd D. Breen	(d) ac (dd)	Siarad yn unig mewn cyfarfodydd o'r Bont-faen gyda Chyngor Tref Llanfleiddan pan drafodir materion yn ymwneud ag Amgueddfa'r Bont-faen

		(sydd wedi'i lleoli yn Neuadd y Dref y Bont-faen), yn wyneb bod yn Ymddiriedolwr yr amgueddfa ac yn Gadeirydd y Bont-faen gyda Phwyllgor Neuadd y Dref Llanfleiddan.
Cynghorydd B. Morris	(e) a (i)	A siarad yn unig, pan fydd materion yn ymwneud â chaniatâd cynllunio ar gyfer estyniadau i Stad Heol Cae Pwll yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd o Gyngor Cymuned Tregolwyn gyda golwg ar y ffaith bod y Cynghorydd yn byw ar y stad lle gellir ceisio caniatâd i adeiladu estyniad.
Cynghorydd M. Hooper	(c), (d), (f) ac (i)	Siarad a phleidleisio ar faterion eang yn ymwneud â phortffolio Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru (ac eithrio materion yn ymwneud ag Ynni Cymru neu Unnos) pan fyddant yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.

### Rheswm dros y penderfyniad

Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer caniatáu gollyngiadau i siarad a phleidleisio ac ystyried y ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno.

### 402 SYLWADAU GAN AELODAU ANNIBYNNOL O GYFARFODYDD PWYLLGORAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED. (SM/PGCD) –

Un o swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau oedd hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr Eglwysi a Rhiant Lywodraethwyr y Cyngor.

Roedd adroddiadau adborth ynghylch arsylwadau a gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol Cyngorau Tref a Chymuned yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Monitro, a diweddariadau cyffredinol ar lafar am yr adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd gan yr Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau. Roedd y Swyddog Monitro ac/neu'r Prif Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd a Chraffu yn ymdrin ag unrhyw arsylwadau lle'r oedd angen trafodaeth benodol â Phrif Weithredwr

No.

Cyngor Bro Morgannwg neu Gadeirydd Pwyllgor a Chlerc / Cadeirydd Cyngor Tref a Chymuned. Roedd adroddiad trosolwg a gwersi a ddysgwyd ar gyfer yr holl ymweliadau a gynhaliwyd wedi cael ei cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mawrth 2022.

Roedd rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngorau Tref a Chymuned wedi cael ei hanfon ymlaen at Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau, fel y gellid cynnal ymweliadau arsylwi pellach ar gyfer 2022/23. Mewn perthynas â chyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg, gan fod Uwch Swyddogion a Swyddogion Gwasanaethau Democraataidd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cyngor, roedd y Swyddog Monitro wedi gofyn i'r swyddogion roi gwybod iddi am unrhyw faterion.

Dywedodd Mrs. Hallett wrth y Pwyllgor Safonau y bu'n arsylwi cyfarfod Llanddunwyd ar 8 Awst 2023, ac er nad oedd unrhyw gardiau enwau'n weladwy, a'i bod yn anodd gweld pwy oedd yn siarad, ystyriai fod y cyfarfod yn un da. Fodd bynnag, byddai'n argymhell i'r Cadeirydd, yn dilyn y trafod a'r dadlau, ystyried amlygu'r argymhellion y cytunwyd arnynt ar ddiwedd pob eitem er mwyn i'r rhai a oedd yn gwylio fod yn ymwybodol o'r penderfyniadau a wnaed.

Roedd Mrs Hallett hefyd wedi ymweld â Chyngor Cymuned Tregolwyn ar 18 Medi, 2023, a dywedodd fod y cyfarfod hwnnw wedi bod yn un da iawn, gyda chynigion yn cael eu gwneud a'u heilio fel mater o drefn, a byddai'n argymhell bod cymaint â phosibl yn gweld y cyfarfod hwn gan mai dyma oedd y cyfarfod gorau iddi fod yn bresennol ynddo erioed yn ei barn hi.

Cyfeiriodd Mr Watkins at ei ymweliad arsylwi â Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd ar 25 Gorffennaf 2023, gan ddweud y bu'n hawdd cael hyd i'r lleoliad, er ei bod hi ychydig yn anodd cael mynediad i'r adeilad. Nid oedd ganddo unrhyw sylwadau negyddol ar y cyfan.

Bu Mr Hendicott yn arsylwi Cyngor Cymuned Ewenni ar 13 Medi, 2023, lle'r oedd yn bresennol yn yr ystafell gyfarfod. Dywedodd fod platiau enw ar gael, y dilynwyd yr agenda'n llwyddiannus a'i bod hi'n glir bod budd preswylwyr yn agos at galon y Cyngor. Nid oedd unrhyw Is-bwyllgorau felly trafodwyd popeth gan y Cyngor Llawn. Fodd bynnag, ar adegau roedd hi'n anod deall beth oedd wedi'i gytuno, ac er nad beirniadaeth oedd hyn, roedd o'r farn y gallai'r cyfarfod fod wedi gorffen ynghynt o'i gynnal mewn modd mwy ffurfiol. Cafodd rhai materion eu hystyried ddwywaith ar yr agenda, ac er ei fod yn gwneud y sylwadau hyn, dywedodd fod y Cyngor yn dal i gydweithio i fodloni anghenion preswylwyr, er y byddai'n argymhell cynnal y cyfarfod mewn ffordd fwy ffurfiol a threfnus.

Mewn atebiad i ymholiad gan Mrs. Tinsley ynghylch a oedd y recordiad bellach ar gael yn gysylltiedig â Chyngor Cymuned Llan-gan, a grybwyllwyd yn y cofnodion blaenorol. Dywedodd y Swyddog Monitro fod yr holl bwyntiau a wnaed gan Mrs Tinsley yn dilyn ei hymweliad arsylwi â Llan-gan wedi'u codi gyda'r Cadeirydd a'r Clerc a oedd yn barod i roi ystyriaeth i'r pwyntiau hynny. O ran y recordiad, nid oedd wedi'i ddarparu, a rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Monitro mai ar gyfer llunio'r cofnodion yn unig y'i defnyddiwyd, ac nad oedd ar gael mwyach.

No.

Yn dilyn ymholiad gan Aelod ynghylch a oedd yn ofynnol yn gyfreithiol i gadw'r recordiad, dywedodd y Swyddog Monitro mai mater i'w ystyried gan Clerc y Cyngor Cymuned oedd hyn, ac nad oedd rheoli prosesau o fewn Cyngorau Tref a Chymuned o fewn ei chylch gwaith. Byddai rheoliadau Cyngorau Tref a Chymuned yn cynghori ynghylch y gofynion, a gellid cael cyngor hefyd gan Un Llais Cymru os oedd y Cyngor Tref neu Gymuned yn aelod o'r sefydliad hwnnw.

Dywedodd Mrs Tinsley fod y newid a gafwyd mewn Clercod yn gysylltiedig â'r Cyngor Cymuned hwnnw wedi achosi problemau. Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod wedi cynnig sicrhau ei bod ar gael i roi cymorth pellach pe bai'r Cadeirydd a'r Clerc angen hynny.

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r adborth a gafwyd mewn perthynas â'r ymweliadau arsylwi a gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau i gyfarfodydd y Cyngor Tref a Chymuned.

(2) BOD materion yn dilyn ymweliadau arsylwi cyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned yn cael eu hamlygu gan Aelodau Annibynnol fel materion sydd angen sylw pellach neu ymweliadau pellach a / neu geisiadau gan y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd am ymweliadau. ymgymryd â'r rhain, eu trefnu yn ôl yr angen.

(3) BOD adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd yn dilyn yr holl ymweliadau Sylwadau Cyngorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd hyd yma yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Ionawr 2024 y Pwyllgor Safonau i'w ystyried.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1&2) Ystyried yr arsylwi a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau.

(3) Cadw briff gwyllo o ran rôl y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro.

403 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON OMBWDSMON  
GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2022/23 A CHYLCHLYTHYR  
CHWARTEROL (SM/PGCD) –

Roedd Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022/2023 yn darparu manylion a oedd yn ymwneud â swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon). Roedd dolen i'r adroddiad llawn wedi'i chynnwys ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.

Tynnwyd sylw Aelodau'r Pwyllgor Safonau at y cyfeiriadau y manylwyd arnynt yn adroddiad yr Ombwdsmon ynghylch cwynion am Aelodau Awdurdodau Lleol a oedd wedi torri Cod Ymddygiad Aelodau eu Hawdurdod. Roedd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon wedi'i gynhyrchu mewn fformat gwahanol i adroddiadau blaenorol ac roedd yr adran berthnasol i'w hystyried gan y Pwyllgor wedi'i chynnwys ym mharagraff 2.5 yr adroddiad.

No.

Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi dechrau llunio Cylchlythyrau chwarterol y gellid eu gweld drwy'r ddolen yn yr adroddiad. Roedd ail rifyn y Cylchlythyr hefyd wedi'i atodi yn Atodiad 6 yr adroddiad er ystyriaeth y Pwyllgor.

Wrth gyflwyno'r adroddiad tynnodd y Swyddog Monitro sylw hefyd at wall teipio ar dudalen 3 gan nodi y dylai'r ganran fod yn 4% yn hytrach na 490. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi'i siomi gyda'r ffigurau yn yr adroddiad a oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad i ymchwilio mewn chwech wythnos, lle na chyrraeddwyd ond 37% yn erbyn targed o 80%. Roedd y Cynghorydd Birch o'r farn mai rheswm posibl am hyn oedd natur gymhleth y materion dan sylw, neu'r angen i gasglu gwybodaeth.

Ystyriai Mrs Tinsley a'r Cynghorydd Birch y byddai'n ddefnyddiol gwybod y rhesymau pam nad oedd y targedau wedi'u cyrraedd, a gofynnwyd a ellid cyfeirio hyn ymlaen i sylw'r Ombwdsmon er ystyriaeth.

PENDERFYNWYD – NODI'r adroddiad a'r cylchlythyr chwarterol, gan dderbyn bod sylwadau'r Pwyllgor Safonau yn ymwneud â'r rhesymau pam nad oedd rhai o'r targedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol, y cyfeirir atynt ar dudalen 124 o'r adroddiad, wedi'u cyrraedd, yn cael eu codi gan y Pwyllgor Safonau. Cadeirydd yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 404 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) –

Yn ôl yr adroddiad, byddai'r Swyddog Monitro yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod o dan Ran II yr agenda, yn gysylltiedig â gohebiaeth ddiweddar a materion o natur gyffredinol a oedd yn codi yn unol â gweithdrefnau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

PENDERFYNWYD – NODI cynnwys yr adroddiad, gan ystyried y byddai diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried dan Ran II yr agenda.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu Aelodau'r Pwyllgor.

#### 405 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O DAN Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes



No.

ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

406 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Fel yr amlinellwyd yn Rhan I yr agenda, roedd y Pwyllgor Safonau wedi cytuno y dylai eitem sefydlog ymddangos ar agenda'r Pwyllgor fel y gallai'r Swyddog Monitro roi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor Safonau am unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) am unrhyw faterion a oedd yn codi, gyda'r eitemau hynny'n gyfrinachol eu natur yn unol â gweithdrefn yr Ombwdsmon.

Felly rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddiariad ar lafar i'r Pwyllgor ynghylch gohebiaeth gyfrinachol a gafwyd yn ddiweddar â'r Ombwdsmon. Gan nad oedd unrhyw gwestiynau ynghylch yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod,

PENDERFYNWYD – NODI'r wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog Monitro yn y cyfarfod.

#### Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.